# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 18 Mehefin 2013** |
| Amser: | **08:30 - 09:03** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Lesley Griffiths**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Anna Daniel (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Virginia Hawkins, Pennaeth Pwyllgorau Cynulliad dros dro**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd**<br>**Aled Elwyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Siambr**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru**<br>**Sue Perry, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion ar gyfer cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

3(i) Busnes yr wythnos hon

Rhoddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am newidiadau i fusnes y Llywodraeth ar ddydd Mawrth. Nododd y Rheolwyr Busnes y byddai pob pleidlais mewn perthynas â'r Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) yn digwydd yn ystod trafodion Cyfnod 3 a 4.

Cafodd y Pwyllgor Busnes gais gan y Blaid Lafur i newid aelod ar bwyllgor: Bydd Ken Skates yn cymryd lle Mark Drakeford ar y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog. Nododd y Rheolwyr Busnes y bydd y cynnig yn cael ei wneud heb rybudd ar ddydd Mawrth.

Ar ddydd Mawrth, cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ar ddydd Mercher.

3(ii) Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3(iii) Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Rheolwyr Busnes, cytunodd y Llywodraeth i ddyrannu 120 munud ar gyfer y ddadl Cyfnod 3 ar y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) a drefnwyd ar gyfer 2 Gorffennaf 2013.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i drefnu'r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 26 Mehefin 2013**

- Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog 26.89 a 26A mewn perthynas â Biliau a gynigir gan Aelodau (5 munud)

**Dydd Mercher 10 Gorffennaf 2013**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr Ymchwiliad i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (60 munud)

- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Cartrefi Symudol (Cymru) (60 munud)
  *Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.*
  *Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff yr Aelod sy'n gyfrifol gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:*
  *Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Cartrefi Symudol (Cymru). (5 munud)*

3(iv) Dadl Aelod Unigol: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Dewisodd y Pwyllgor Busnes y cynnig a ganlyn ar gyfer dadl:

**Dydd Mercher 26 Mehefin 2013**

**NNDM5262**

**Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**
**Peter Black (Gorllewin De Cymru)**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
**Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu y dylai'r setliad datganoli fod yn seiliedig ar fodel pwerau a gedwir yn ôl.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r ddadl Aelod unigol nesaf yn cael ei chynnal ar ddydd Mercher 16 Hydref, 2013.

3(v) Amserlen y Cynulliad

Bu'r Pwyllgor Busnes yn trafod Amserlen y Cynulliad ar gyfer Medi 2013 - Gorffennaf 2014 a chytunodd i drafod hyn ymhellach yng nghyfarfod yr wythnos nesaf, yn enwedig y dyddiadau toriad dros dro.

## 4 Deddfwriaeth

4(i) Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y cais i ymestyn y dyddiad cau i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 5 Gorffennaf i 19 Gorffennaf 2013, ac felly ymestyn y dyddiad cau ar gyfer Cyfnod 2 i 13 Rhagfyr 2013.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i'r pwyllgor gynnal cyfarfod ychwanegol ar ddydd Llun 1 Gorffennaf 2013.

4(ii) Y Bil Addysg (Cymru)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Bil Addysg (Cymru) at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i'w ystyried. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil erbyn 22 Tachwedd 2013. Os bydd y Bil yn cael ei gytuno yng Nghyfnod 1, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 7 Chwefror 2014.

## 5 Y Rheolau Sefydlog

5(i) Diwygio'r Rheolau Sefydlog: Cydsyniad Deddfwriaethol i Offerynnau Statudol a wneir gan Weinidogion y DU a Biliau Preifat

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur yn cyflwyno cynigion i gyflwyno Rheol Sefydlog 30A newydd i sefydlu gweithdrefn ffurfiol i'r Cynulliad roi cydsyniad i offerynnau statudol sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Gwahoddwyd y Rheolwyr Busnes hefyd i ystyried y cynigion a amlinellwyd i ddod â Biliau Preifat y DU o fewn cwmpas Rheol Sefydlog 29.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â'u grwpiau ar y cynigion ac i drafod y mater ymhellach yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 2 Gorffennaf 2013.

5(ii) Balotau ar gyfer Biliau Aelod (Rheol Sefydlog 26.89): Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor Busnes adroddiad drafft ar ddiwygio Rheol Sefydlog 26.89 a 26A mewn perthynas â Biliau a gynigir gan Aelodau, a chymeradwywyd yr adroddiad.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyflwyno cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog, i'w ystyried gan y Cynulliad ddydd Mercher 26 Mehefin 2013.